**Cofnodion cyfarfod o Gyngor Cymuned Aberdaron a gynhaliwyd nos Lun, Chwefror 10fed, 2025 am 7:30 y.h. yng Nghanolfan Deunant.**

**Presennol**: Y Cynghorwyr Dewi Evans, Mari Evans, Dafydd Myrddin, Emlyn Jones, Jaci Jones (yn y gadair), Nesta Roberts, Wenda Williams. Y clerc Phil Hughes.

Ymunodd Alun Harrison o'r Ship, Aberdaron ar ddechrau'r cyfarfod, a chafodd ganiatâd gan y Cadeirydd Jaci Jones i rannu ei bryderon ynghylch y safle dadlwytho o flaen y Ship. Eglurodd y Cynghorydd Jaci Jones fod y Cyngor Cymuned yn cydymdeimlo â'i sefyllfa, ond na fedrai fod yn gyfrifol am newid defnydd. Yr oedd y Cyngor yn fodlon, sut bynnag, i gysylltu efo adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd i ofyn a allant hwy gynnal ymweliad safle gydag Alun ei hun er mwyn ceisio dod i gytundeb.

**1) Ymddiheuriadau a Datgan Diddordeb:** Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Wil Evans, Gwenllian Haf, Tim Rosa, Dafydd Williams, Robert Williams.

**2) Cyhoeddiadau'r Cadeirydd:**

Gobeithiwn fod y Cynghorydd Robert Williams yn gwella yn dilyn ei lawdriniaeth.

**3) Llofnodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar nos Lun, Ionawr 13eg, 2025:**

Derbyniwyd y cofnodion fel rhai cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

**4) Materion yn codi o'r cofnodion:**

i. **Ymatebion Cyngor Gwynedd i faterion ffyrdd a llwybrau -** Ni dderbyniwyd diweddariad gan Gyngor Gwynedd.

ii. **Materion yr Eglwys Newydd** – Fe fu'r Cyng Dewi Evans mewn cysylltiad efo Gallaghers a buont draw yn tacluso o gwmpas yr adeilad yn dilyn difrod storm Daragh. Fodd bynnag yn dilyn storm arall fis Ionawr mae ambell lechen wedi disgyn o ochr arall y to, a bu'r Cyng Dewi Evans yn holi adeiladwyr lleol,a gobeithir gweld eu hailosod yn fuan.

Derbyniwyd adroddiad cwmni Donald Insall ar y gwaith trwsio gwreiddiol, ac fe'i pasiwyd i'r cwmni yswiriant. Rydym yn gobeithio y gwelir yn glir i dalu am y gwaith sydd wedi ei wneud hyd yma, ac y gall Gallaghers ddal ymlaen i orffen y gwaith sy'n weddill.

iii. **Y Fynwent** – Rydym dal i ddisgwyl am daliadau gan ambell ymgymerwr am angladdau hanesyddol. Ni chafwyd ymateb i lythyrau blaenorol, ac felly penderfynwyd rhoi galwadau ffôn iddynt yn gofyn am y taliadau cyn ystyried mynd â'r mater ymhellach. Bydd angen eu hatgoffa, yn ogystal, na fydd mynediad i'r fynwent i ymgymerwyr heb i'r Cyngor dderbyn taliad yn gyntaf.

iv. **Y Cae Chwarae** – Roedd y Cyng Emlyn Jones wedi holi am y dull gorau o lenwi'r tyllau fydd yn y llawr ar ôl newid y siglen.

**5) Gohebiaethau:**

- **Rhybudd - Cau'r Ffordd Dosbarth III, Lôn Uwchmynydd, Uwchmynydd –** er gwybodaeth.
- **Rhybudd - Cau'r Ffordd o Finafon i'r gyffordd ger Capel Carmel, Anelog, Aberdaron –** er gwybodaeth.
- **Rhybudd - Cau'r Ffordd o Dyddyn Meirion i'r groesffordd, Rhiw –** er gwybodaeth.
- **Rhybudd - Cau'r Ffordd o'r Ship Hotel i Ben Cae, Aberdaron** – er gwybodaeth.
- **Rhybudd - Caead Argyfwng - Ffordd o Dryfan i'r gyffordd i'r gogledd o Fryn Dôl, Rhiw –** er gwybodaeth.
- **Hyfforddiant Trydydd Sector Gwynedd – Makaton –** er gwybodaeth os oes unrhyw un eisiau ymuno.
- **Arolwg Aelod o Gynghorau Un Llais Cymru ac ymgysylltu gyda Phwyllgorau Ardal** - er gwybodaeth os oes unrhyw un eisiau'i lenwi.
- **Memorandwm o Ddealltwriaeth - Cyfeillion Llŷn** - Cytunwyd efo'r pwyntiau yn y memorandwm ac arwyddwyd y ddogfen gan y Cadeirydd Jaci Jones.
- **Cynhadledd Economi Ymweld Gwynedd** - er gwybodaeth.
- **Llythyr gan Sian Gwnellian AS - Sefydlu Ysgol ddeintyddiaeth ym Mangor.** - Cytunwyd gyda'r llythyr a phenderfynwyd anfon i gefnogi'r datblygiad.
- **Cais i rannu manylion ymgynghoriad trafnidiaeth** - er gwybodaeth, penderfynwyd ei roi i fyny ar yr hysbysfwrdd ym mhentref Aberdaron.
- **Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Un Llais Cymru - 11-03-2025 ar lein** – Penderfynwyd anfon nodyn atgoffa yr wythnos cynt.
- **Derbyniwyd gohebiaeth gan Efa Fitzgerald, myfyriwr o Brifysgol Caerdydd, am ei ymchwil** – Awgrymwyd i aelodau unigol gysylltu â hi, os am roi barn.

**6) Cynllunio**
**C24/0519/30/DT - Wendon, 3 Bro Hywyn, Aberdaron, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8BL - Cais i osod pwmp gwres i gefn eiddo. -** Dim gwrthwynebiad.

**Rhif Apêl/Appeal Ref: CAS-03859-T2P0K5 - Anhegraig, Aberdaron, Pwllheli, Gwynedd, LL53 8BG - Rheoleiddio defnydd eiddo fel Llety Gwyliau Tymor byr a gosod amod gwyliau** – Dim sylwadau.

**7) Ariannol**

| *Derbyniadau* | |
|---|---|
| Roberts & Owen (Carreg J S Lloyd) | £90 |
| Roberts & Owen (Carreg N E Quinn) | £60 |

| | |
|---|---|
| Roberts & Owen (Carreg K M Jones) | £125 |
| Hefin Underwood (J Williams Bryn hanesyddol) | £85 |
| Hefin Underwood (W Williams Ardd Las) | £90 |

*Taliadau*

| | |
|---|---|
| Ffioedd banc HSBC | £5.80 |
| Three (CCTV) | £13.10 |
| Phil Hughes (Cyflog) | £260 |
| HMRC (PAYE) | £65 |

**8) Materion ffyrdd a llwybrau**

1) Pafin i fynd lawr o dai Bro Hywyn i Angorfa - Bydd angen anfon e-bost i adran priffyrdd i holi a oes diweddariad ar hyn.

2) Ysgol Llidiardau, Rhydlios – Penderfynwyd anfon at Gyngor Gwynedd i holi am ddiweddariad am yr hyn sy'n digwydd yno.

3) Lonydd yn cael eu cau er mwyn trwsio polion llinellau ffôn – awgrymwyd ein bod yn holi Cyngor Gwynedd a ydi hi'n angenrheidiol cau'r holl lôn pan nad ydi'r gwaith ond yn effeithio ar ran fechan ohoni.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ar nos Lun, Mawrth 10fed, yn Neuadd y Rhos.**